


Llythrennedd ac Iaith
5 i 9

# Llyfrau Byw

- Darllen a Deall

## Trosolwg

Mae'r gweithgaredd llythrennedd yma'n gyfle gwych i ddod â llyfr stori yn fyw a rhoi cyfle i ddisgyblion archwilio'r cymeriadau a'r lleoliad ymhellach.

## Adnoddau

- Llyfr stori
- Deunyddiau celf
- Deunydd naturiol
- Deunyddiau sgrap neu wedi'u hailgylchu

## Gweithgaredd

1. Darllenwch eich stori mewn llecyn sy'n gweddu orau i'r lleoliad. e.e. gardd ar gyfer Y Lindysyn Llwglyd, neu Guto Gwningen, ardal goediog ar gyfer Y Gryffalo.
2. Beth am ddod â'r stori'n fyw gydag effeithiau sain, pypedau, neu hyd yn oed actio.
3. Siaradwch am y cymeriadau, y lleoliadau a'r eitemau sy'n ymddangos yn y stori.
4. Ewch ati i ail-greu golygfeydd o'r stori neu waith celf gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ar gyfer creadigaethau ar raddfa fach neu fawr. Efallai y byddwch chi eisiau ail-greu cymeriadau unigol neu'n dewis dilyn thema o'r stori yn lle hynny.

## Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr chi. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Archwilio lleoliad, cymeriadau a llinell stori testun ffuglennol

Isod, rydyn ni wedi cynnwys rhai syniadau y mae addysgwyr eraill wedi eu defnyddio ar y cyd â'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

| Maes pwnc | Testun | Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach |
|---|---|---|
| Llythrennedd ac Iaith | Ysgrifennu disgrifiadol | Labelu'r lluniau gydag ansoddeiriau i ddisgrifio'r olygfa neu'r cymeriadau |
| | Strwythur brawddeg | Defnyddio creadigaethau fel ysgogiad i ysgrifennu brawddegau |
| Hanes | Gwareiddiadau'r gorffennol | Defnyddio'r un dull i ddod â golygfeydd o hanes yn fyw |
| Drama | Ail-ddweud stori | Defnyddio'r gofod tu allan fel llwyfan ar gyfer actio golygfa o'r llyfr |
| Cerddoriaeth | Cyfansoddi | Cyfansoddi trac sain neu gân i'w hychwanegu at yr olygfa neu'r stori |
| Mathemateg | Cymesuredd/ Siapiau/ Patrymau | Defnyddio'r un dechneg i greu lluniau cymesur, patrymau ailadroddus, siapiau penodol neu luniau gyda dimensiynau gosod |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: **ltl.org.uk/outdoor-learning-training**

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890